

» Darganfod mwy am gyfyngiadau lleol y coronafeirws

Dilynwch y cynngor ar gyfer y **coronafeirws (COVID-19)**

Cuddio ✕

Hafan > **Coronafeirws (COVID-19)** > **Addysg a gofal plant: coronafeirws** > **Ysgolion: coronafeirws** >
 Profion ac asesiadau: coronafeirws

CANLLAWIAU

Profion ac asesiadau: coronafeirws

Gwybodaeth am arholiadau ac asesiadau, gan gynnwys Safon Uwch, yn ystod y pandemig coronafeirws.

Rhan o:
[Addysg bellach ac uwch: coronafeirws](#),
[Cymwysterau a Ysgolion: coronafeirws](#)

Cyhoeddwyd
 gyntaf:
 24 Mawrth 2020

Diweddarwyd
 ddiwethaf:
 21 Awst 2020

Cynnwys

Sut fydd fy ngradd yn cael ei asesu?

A gaf i apelio yn erbyn y graddau TGAU neu Safon Uwch a ddyfarnwyd imi?

A oes trefn gwyno?

Beth fydd yn digwydd i ddysgwyr Blwyddyn 10?

Beth fydd yr effaith ar Safon UG?

Sut bydd graddau a ddyfernir gan athrawon yn effeithio ar ymgeiswyr allanol (preifat) a dysgwyr sy'n cael eu haddysgu yn y cartref?

Pryd fydd dysgwyr yn cael y cyfle nesaf i sefyll arholiadau?

Pam na fydd graddau safon UG haf 2020 yn cyfrif tuag at raddau Safon Uwch?

A fydd angen i ddysgwyr sefyll y prawf papur Rhifedd (Rhesymeg) eleni?

A fydd gofyn i ddysgwyr gwblhau'r asesiadau personol ar-lein mewn Rhifedd (Gweithdrefnol) a Darllen?

PERTHNASOL

Addysg bellach ac uwch: coronafeirws

- Addysg bellach: coronafeirws**

Cymorth i'r rheini sy'n hyfforddi

- Health and well-being ar waith a phrentisiaethau: coronafeirws**

Ysgolion: coronafeirws

- School opening times and services: coronavirus**
- Health and well-being for school staff, childcare providers and learners: coronavirus**
- Staff ysgolion a'u cyflogaeth: coronafeirws**

Arholiadau

Sut fydd fy ngradd yn cael ei asesu?

Ar 17 Awst, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams, y byddai dysgwyr yng Nghymru yn cael eu gradd asesu canolfannau.

Mae'r symudiad i ddyfarnu cymwysterau yn seiliedig ar radd asesu canolfannau yn golygu mai barn broffesiynol athrawon yw'r graddau a ddyfernir i ddysgwyr yng Nghymru, ac eithrio lle mae'r graddau a gyhoeddwyd neu a gyfrifwyd eisoes yn uwch na'u gradd asesu canolfannau. Neu, yn achos Safon Uwch, mae eu gradd lefel UG yn uwch na'u gradd asesu canolfannau a'r gradd a ddyroddwyd.

Mae pob gradd asesu canolfannau a ddarperir gan ysgolion a cholegau wedi'u cymeradwyo gan bennaeth y Ganolfan.

A gaf i apelio yn erbyn y graddau TGAU neu Safon Uwch a ddyfarnwyd imi?

Mae Cymwysterau Cymru wedi cyhoeddi canllawiau llawn ar y **trefniadau ar gyfer cyfres arholiadau haf 2020** ar eu gwefan.

Mae Cymwysterau Cymru hefyd wedi cyhoeddi canllawiau os yw eich canlyniadau'n wahanol i'r hyn yr **oeddech yn ei ddisgwyl**, a hefyd fanylion ynghylch y **broses apelio**. Cyhoeddodd y Gweinidog Addysg ar 12 Awst na fyddai unrhyw apêl a wneir yng Nghymru yn costio'r un geiniog.

A oes trefn gwyno?

Mae Cymwysterau Cymru wedi **cyhoeddi canllawiau wedi'u diweddarau ar apeliadau**.

Rhaid i bob ysgol gael **gweithdrefn gwyno** y mae'n rhaid ei chyhoeddi.

O dan amgylchiadau arferol byddai cwyn yn cael ei chyfeirio at athro/athrawes, yna at y pennaeth ac yn olaf y corff llywodraethu pe bai rhywun yn anhapus â'r ffordd yr oedd y gŵyn yn cael ei datrys.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn ymwneud â chwynion unigol sy'n fater i'r ysgol.

Beth fydd yn digwydd i ddysgwyr Blwyddyn 10?

Bydd dysgwyr ym Mlwyddyn 10 a oedd ar fin sefyll arholiadau a fyddai wedi arwain at gymhwyster TGAU llawn yr haf hwn yn cael gradd gan ddilyn yr un broses â dysgwyr Blwyddyn 11. Bydd asesiadau athrawon a dystiolaeth o fath arall yn cael eu defnyddio i gyfrifo Gradd Canolfan Asesu. Os oedd eich gradd ar ôl y broses safoni yn uwch na'ch Gradd Canolfan Asesu, byddwch yn cael y Radd wedi'i safoni. Ceir rhagor o fanylion yn adran **Cwestiynau Cyffredin CBAC**.

Ar gyfer dysgwyr ym Mlwyddyn 10 a oedd ar fin sefyll unedau yn unig, hynny yw unedau a fydd yn arwain at ganlyniadau TGAU yr haf nesaf, ni fyddant yn cael canlyniadau amcangyfrifedig. Cyhoeddodd Cymwysterau Cymru ar 27 Mawrth na fyddai angen i ymgeiswyr a gofrestrwyd ar gyfer uned yn haf 2002 ailsefyll yr uned hon yn 2021. Fodd bynnag, ers y cyhoeddiad hwn, mae Cymwysterau Cymru wedi gofyn i CBAC wneud addasiadau i asesiadau TGAU i gyfrif am rywfaint o'r amser addysgu a dysgu a gollwyd. Mae graddau'r addasiadau hyn yn golygu y bydd gofyn i ddysgwyr sefyll cyfuniad o unedau mewn rhai TGAU unedol, ac nid y cymhwyster llawn, a allai gynnwys rhai unedau y cofrestrwyd ymgeiswyr ar eu cyfer yn haf 2020. Ceir canllawiau ar yr ystod lawn o addasiadau a wnaed i gymwysterau TGAU mewn adran ddiogel ar wefan CBAC y gall ysgolion fynd iddi.

Cyhoeddodd Cymwysterau Cymru y **Gofynion Rheoleiddiol** ar gyfer Addasu Asesiadau i Gymwysterau Cyffredinol yn 2021 ac mewn **llythyr** dyddiedig 15 Gorffennaf 2020. Mae hyn yn ateb teg i bob dysgwr p'un a gawsant eu cofrestru ym Mlwyddyn 10 ai peidio, ac mae'n rhoi rhywfaint o ddewis i ganolfannau a dysgwyr o ran pa unedau i'w sefyll. Mae'r canolfannau wedi cael gwybod pa gymwysterau y mae'r newid hwn yn berthnasol iddynt.

Nid yw'r newid hwn yn berthnasol i TGAU Gwyddoniaeth. Ar gyfer pob cymhwyster TGAU Gwyddoniaeth, bydd graddau terfynol yr ymgeiswyr yn seiliedig ar yr unedau sy'n weddill y mae'n rhaid cofrestru ar eu cyfer ym Mlwyddyn 11, ac nid yr unedau y cofrestrwyd ar eu cyfer ym Mlwyddyn 10. Fodd bynnag, gallant ddewis ailsefyll yr unedau hyn, os ydynt yn dymuno gwneud hynny, a byddant wedyn yn derbyn y radd orau o'r naill neu'r llall.

Beth fydd yr effaith ar Safon UG?

Eleni bydd pob dysgwr UG yn derbyn gradd UG wedi'i amcangyfrif, ac ni fydd arholiadau UG tan haf 2021. Bydd yr amcangyfrif yn seiliedig ar amrywiaeth o dystiolaeth, gan gynnwys graddau asesiadau gan athrawon, ac ni fydd yn cyfannu at y canlyniadau Safon Uwch yn 2021.

Yn haf 2021, bydd gan ddysgwyr ddau opsiwn ar gyfer eu dyfarniad Safon Uwch. Gellir naill ai sefyll yr unedau U2 yn unig, gyda'r radd Safon Uwch yn cael ei dyfarnu ar sail eu perfformiad yn yr unedau hynny yn unig, neu gellir sefyll yr unedau UG ac U2. Os byddant yn derbyn y radd orau o'r naill lwybr neu'r llall – naill ai y radd sy'n cael ei dyfarnu ar sail perfformiad yn yr uned U2 yn unig, neu'r radd sy'n cael ei dyfarnu drwy gyfuno'r unedau UG ac U2.

Mae Cymwysterau Cymru wedi cyhoeddi cyfres fanylach o gwestiynau ac atebion am arholiadau **yma**.

Sut bydd graddau a ddyfernir gan athrawon yn effeithio ar ymgeiswyr allanol (preifat) a dysgwyr sy'n cael eu haddysgu yn y cartref?

Mae Cymwysterau Cymru wedi cyhoeddi **canllawiau ynghylch y ffordd y bydd graddau yn cael eu dyfarnu**. Mae'r canllawiau hyn hefyd yn rhoi cynngor ynghylch y dull fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ymgeiswyr preifat fel y rhai sy'n cael eu haddysgu yn y cartref. Pan fo canolfan arholi, ysgol neu gysteg fel rheol, yn hyderus eu bod nhw a'u staff wedi gweld digon o dystiolaeth am yr hyn y bydd eu dysgwyr wedi'i gyflawni i wneud dyfarniad gwrthrychol, bydd y dysgwr yn cael gradd canolfan asesu.

Er mwyn galluogi mwy o ymgeiswyr preifat i gael gradd yn yr haf eleni, mae Cymwysterau Cymru wedi galluogi ymgeiswyr preifat i drosglwyddo i ganolfannau arholi gwahanol, canolfannau sydd â mwy o wybodaeth am y myfyriwr a'i berfformiad – er enghraifft ei hen ysgol os yw'r ymgeisydd yn ailsefyll arholiad.

Gan gydnabod bod rhai achosion o hyd lle nad oes gan ganolfannau arholi ddigon o wybodaeth am ymgeisydd i wneud dyfarniad gwrthrychol am ei berfformiad, mae Cymwysterau Cymru wedi trefnu llwybr arall. Dan y broses hon, bydd graddau yn cael eu cyfrifo ar gyfer ymgeiswyr preifat sydd wedi sefyll rhywfaint o'r cymhwyster mewn arholiadau blaenorol, er enghraifft unedau TGAU y flwyddyn flaenorol. I wneud hyn, defnyddir dull tebyg i'r un a ddefnyddir pan fo dysgwyr yn methu sefyll pob arholiad yn sgil salwch neu resymau eithriadol eraill. Ceir rhagor o wybodaeth yn y **Datganiad Polisi ar Ymgeiswyr Preifat**.

Mae CBAC wedi cyhoeddi **canllawiau ar gyfer ymgeiswyr preifat**.

Pryd fydd dysgwyr yn cael y cyfle nesaf i sefyll arholiadau?

Ar gyfer dysgwyr sy'n dewis sefyll arholiadau a gollwyd eleni, bydd cyfle i sefyll TGAU craidd Iaith Gymraeg, Iaith Saesneg, Mathemateg a Mathemateg – Rhifedd yn mis Tachwedd 2020. Bydd cymwysterau eraill ar gael yn mis Ionawr 2021 ac fel rhan o gyfres haf 2021.

Pam na fydd graddau safon UG haf 2020 yn cyfrif tuag at raddau Safon Uwch?

Ar 27 Mawrth, yn dilyn ystyriaeth fanwl o'r opsiynau oedd ar gael, amlinellodd y Gweinidog Addysg y dull gweithredu ar gyfer dysgwyr a oedd ar fin sefyll eu harholiadau safon UG a dysgwyr Blwyddyn 10 a fyddai wedi gwneud asesiadau uned TGAU yn yr haf. Ni fydd gofyn i ddysgwyr a oedd ar fin sefyll arholiadau UG eleni sefyll yr arholiadau hynny ar ddyddiad arall. Yn hytrach, byddant yn cael eu trin mewn ffordd debyg i'r myfyriwr TGAU a Safon Uwch, ac yn cael gradd wedi'i gyfrifo ar sail data'r ganolfan asesu a modelau ystadegol. Fodd bynnag, ni fydd graddau wedi'u cyfrifo yn cyfrannu at ganlyniadau Safon Uwch yn 2021.

Ar gyfer y rhai sy'n parhau gyda'r pwnc i safon U2, bydd dau opsiwn yn haf 2021:

Opsiwn 1: Gallwch ddewis sefyll yr unedau UG ac U2 ar gyfer Safon Uwch. Bydd y radd Safon Uwch lawn yn cael ei chyfrifo ar eich perfformiad yn yr holl unedau hyn yn y Safon Uwch llawn.

Opsiwn 2: Gallwch sefyll unedau U2 yn unig, a bydd eich perfformiad ynddynt yn cael ei ddefnyddio i gyfrifo'r canlyniad ar gyfer yr unedau UG. Bydd y marciau cyfunol yn cael eu defnyddio i gynhyrchu gradd Safon Uwch.

Os byddwch yn dewis dilyn opsiwn 1, bydd CBAC yn gwirio beth fyddai'ch canlyniad wedi bod gydag opsiwn 2. Os bydd opsiwn 2 yn rhoi gradd uwch, byddwch yn derbyn y radd uwch honno.

Mae'r broses ar gyfer dyfarnu graddau Safon Uwch yn gymhleth ac yn cynnwys nifer o elfennau. Mae angen marciau gwirioneddol o bob uned UG i roi marciau UMS (Uniform Mark Scale) sy'n cael eu cyfuno gyda marciau UMS yr unedau U2 i gynhyrchu gradd Safon Uwch. Ni fydd y manylion hyn ar gael ar gyfer graddau wedi'u cyfrifo yn haf eleni, felly ni fydd modd eu defnyddio wrth gynhyrchu gradd Safon Uwch yn haf 2021. Felly oni bai eich bod yn dewis cymryd eich unedau UG wrth ochr eich unedau U2, at ddibenion pennu eich dyfarniad Safon Uwch yn haf 2021, bydd marciau uned UG yn cael eu pennu o'ch perfformiad yn eich unedau U2. Mae'r dull ystadegol hwn yn un sefydlog, sydd wedi'i brofi ac eisoes yn cael ei ddefnyddio pan fo myfyriwr yn colli unedau penodol yn sgil salwch.

Rydym yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys y sectorau Addysg Bellach ac Addysg Uwch i sicrhau nad yw dysgwyr dan anfantaes.

Asesiadau

A fydd angen i ddysgwyr sefyll y prawf papur Rhifedd (Rhesymeg) eleni?

Na. Mae'r gofynion ar gyfer Profion Cenedlaethol ac asesiadau ar-lein yng Nghymru yn ystod blwyddyn academaidd 2019 i 2020 wedi'u llacio. Gweler y tudalennau unigol isod am ragor o wybodaeth.

A fydd gofyn i ddysgwyr gwblhau'r asesiadau personol ar-lein mewn Rhifedd (Gweithdrefnol) a Darllen?

Mae'r gofynion statudol i ddysgwyr sefyll y profion personol ac i ysgolion roi adroddiadau i rieni a gofalwyr wedi'u llacio yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol. Mae'r wefan asesiadau yn dal i fod ar gael er mwyn gweld adroddiadau ac i ysgolion allu trefnu asesiadau pan fyddant yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny.

Os yw dysgwyr wedi cwblhau asesiadau rhifedd gweithdrefnol eleni, bydd gan ysgolion fynediad i adborth ar eu sgiliau, y sgoriau safonedig yn ôl oedran ac adroddiadau cynnydd.

Mae adroddiadau adborth hefyd ar gael ar gyfer yr asesiadau darllen. Fodd bynnag, bydd yr adroddiadau cynnydd ond ar gael pan fydd y rhan fwyaf o'r dysgwyr wedi sefyll y profion darllen. Oherwydd yr amgylchiadau presennol, mae hyn bellach wedi'i oedi a byddwn yn rhoi diweddiariad pellach pan fydd rhagor o wybodaeth ar gael.

Cyhoeddwyd gyntaf 24 Mawrth 2020

Diweddarwyd ddiwethaf 21 Awst 2020

Rhan o

Addysg bellach ac uwch: coronafeirws

Cymwysterau

Ysgolion: coronafeirws

[Adrodd am unrhyw beth sy'n bod gyda'r dudalen hon](#)

[Rhannu'r dudalen hon](#)

[Nôl i dop y dudalen](#)